


# **YSGOL GYNRADD WIRFODDOL LLANLLWNI**



## **POLISI ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

**2018-19**

## Nodau polisi ADY Ysgol Llanllwni –

- i adnabod plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol cyn gynted â phosibl
- wedi adnabod yr angen, i ddarparu cymorth addas cyn gynted â phosibl
- i fonitro'r cymorth sy'n cael ei ddarparu a'i gymhwyso os bydd angen
- i gynnig i blentyn sydd ag ADY addysg sydd mor llawn a chytbwys â phosibl ac i'w galluogi i gyflawni gofynion y Cwricwlwm hyd eithaf eu gallu
- i ddyrchafu trefniant cydweithredol tu fewn yr ysgol h.y. dylai'r CADY a'r athrawes sy'n gyfrifol am ADY yn yr ysgol weithio'n agos gyda'r Pennaeth, athrawon dosbarth a'r staff cynnal
- i hybu perthynas positif gyda rhieni sydd ag ADY ac i weithio mewn partneriaeth â nhw
- i ofyn am gyngor oddi wrth asiantaethau ac arbenigwyr tu allan i'r ysgol, lle mae'n addas i wneud hynny, ac i ddefnyddio unrhyw gyngor a chymorth oddi wrthynt mewn ffordd effeithiol

Mrs Elowny Jones yw'r cydlynnydd sy'n gyfrifol am drefnu a gweithredu'r polisi ADY yn Ysgol Llanllwni. Mae hi'n cydgysylltu'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer disgyblion sydd ag ADY gan weithio yn agos gyda'r –

- Pennaeth
- Athrawon dosbarth
- Athrawes gynnal sef Mrs Heledd Mathias
- Cynorthwywyr cefnogi dysgu
- Cynorthwywyr Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2
- Asiantaethau allanol e.e. seicolegwyr addysgol, athrawon arbennig sy'n ymweld â'r ysgol, therapyddion galwedigaethol a.y.b

Pe bai plentyn sydd eisios ag ADY yn cael ei dderbyn i'r ysgol, bydd yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei gasglu oddi wrth y personau oedd eisoes yn gyfrifol am reolaeth y plentyn. Bydd enw'r plentyn yn cael ei ychwanegu i'r gofrestr ADY a bydd rhieni'r plentyn yn cael eu gwahodd i'r ysgol i gyfarfod â'r CADY, yr athrawes gynnal a'r pennaeth os bydd angen.

Pe bai'r plentyn wedi bod yn derbyn cymorth cyn ei dderbyniad i'r ysgol, barn y Corff Llywodraethol yw ei bod yn angenrheidiol i gymorth ar lefel sy'n debyg gael ei drefnu cyn i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol. Pe bai anghenion gyda phlentyn sy'n gofyn am newidiadau i adeilad yr ysgol e.e. rampiau, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gyflawni'r gwaith angenrheidiol yn ddibynnol ar –

- gymeradwyaeth y Corff Llywodraethol
- yr arian fydd ar gael
- gydymffurfio gydag unrhyw reolau adeilad perthnasol

## Adnabod, asesu a darparu

Gweithredir profion Cenedlaethol yn ystod tymor yr Haf. Gwneir hyn ym Mathemateg x2, Saesneg a Chymraeg yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Derbynia'r cyd-gysylltydd ADY a'r athrawes gynnal asesiad unigol o bob disgybl gan yr athrawon dosbarth. Mewn ymghynghoriad â'r athrawon ac yn sgil canlyniadau'r profion rhoddir y disgyblion ADY ar un o'r cyfnodau yn unol â Chôd Ymarfer 2002.

Mae modd i'r ysgol wneud profion ychawnegol ar blant e.e. Glannau Menai, a chysylltu â phobl sydd yn gweithio yn y Sir am farn a chymorth pellach.

Mi fydd yr athrawon dosbarth, yr athrawes gynnal ar cyd-gysylltydd ADY yn tracio a monitor cynnydd y disgyblion gan ddefnyddio system INCERTS.

## **Trefniant yr ysgol**

Athrawes ddosbarth yw'r CADY ac fe gyflogir athrawes gynnal i'r gwaith o ddysgu disgyblion ADY CA2, a gweinyddes i ddysgu'r disgyblion ADY Cyfnod Sylfaen. Yn dilyn trafodaeth gyda'r athrawon dosbarth fe fydd yr athrawes gynnal yn paratoi 'proffil un tudalen yn cynnwys targedau' i bob plentyn sydd yn derbyn gwersi ganddi. Bydd y rhieni yn derbyn copi o'r proffil ac yn llofnodi eu bod yn cytuno i'r cynnwys. Bydd y proffil un tudalen yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd. Mi fydd gweinyddes ADY y Cyfnod Sylfaen yn trafod y targedau a'r proffil gyda'r athrawes ADY er mwyn i'r athrawes eu cwblhau.

Bydd trafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng yr athrawes gynnal, athrawon dosbarth, y cyd-gysylltydd a'r gweinyddesau i drafod gwaith a datblygiad y plant sydd ar y gofrestr ADY.

Caiff y cwricwlwm ei gyflwyno i bob disgybl sydd ar y gofrestr ADY mewn dull gwahaniaethol.

Caiff effeithiolrwydd darpariaeth ADY yr ysgol ei werthuso gan y Pennaeth, CADY a chynrychiolydd o'r Llywodraethwyr sydd â gofal ADY o dan y meini prawf canlynol –

- nifer y disgyblion sydd angen sylw
- anghenion y disgyblion yn ôl y Côt Ymarfer AAA Cymru 2002 ar sail asesiadau ysgol ac asiantaethau megis seicolegydd addysg
- amser a roddir i ddiwallu anghenion y disgyblion hynny
- staffio'r anghenion – oblygiadau cyllidol

Mewn achos o gwyn gan riant sy'n ymwneud ag unrhyw elfen o'r Cynllun ADY, gofynnir iddynt ddod i drafod y mater gyda'r Pennaeth yn gyntaf. Ystyrir pob cwyn yn drylwr mewn cydweithrediad â'r cyd-gysylltydd a'r athrawes gynnal.

## Polisi staffio a phartneriaeth y tu hwnt i'r ysgol

Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y rhieni yn chwarae rhan annatod o ddatblygiad eu plentyn/plant. Sicrheir for y rhieni yn hapus gyda'r holl drefniadau a wneir gan yr ysgol i roi sylw arbennig i anghenion eu plentyn/plant. Mae polisi drws agored yn bwysig iawn.

Cynhelir cyfarfod gyda'r rhieni cyn dechrau unrhyw asesiad ffurfiol. Bydd y rhieni yn cael gwybod y camau fel bydd y broses yn mynd yn ei blaen.



## **Cyswllt uwchradd**

Bydd Ysgol Bro Pedr yn trefnu rhaglen bonito i holl ddisgyblion Blwyddyn 6 cyn iddynt gychwyn.

Mewn achos o ddisgybl ag ADY, trafodir y ddarpariaeth a roddir i'r disgybl yn y sector gynradd. Trosglwyddir hefyd unrhyw adroddiad a gwybodaeth berthnasol a fydd o gymorth i ddatblygiad pellach y disgybl i bennaeth ADY Ysgol Bro Pedr neu Ysgol Uwchradd berthnasol. Gwahoddir hwy i'r adolygiad blynyddol hefyd.

Mewn achos o ddisgybl ADY sy'n wynebu symudiad o Ysgol Llanllwni i ysgol neu uned ADY, gwneir trefniadau rhwng yr asiantaethau ADY yr AALI â'r rhieni'r disgybl cyn digwydd unrhyw drosglwyddiad.

Bydd yr ysgol yn cyd-weithio gyda'r Gwasaneth Iechyd, Cymdeithas Llêr Addysg mewn achosion perthnasol i natur anghenion y disgybl.

	Enw	Llofnod	Dyddiad
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Eric Davies		12/7/2018
Pennaeth yr Ysgol	Gareth Jones		12/7/2018

Dyddiad Adolygu	12/7/2019
-----------------	-----------